
Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Prifysgol orau *yn y DU* am gynaliadwyedd

people & planet




Prifysgol Noddfa



*Cyflwyniad gan Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr*

# John Taylor CBE

CMgr, CCMI, DLitt

## Rydw i'n hynod falch eich bod wedi mynegi diddordeb ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ac mewn cyfrannu at ein hagenda blaengar, uchelgeisiol ar gyfer addysg, ymchwil ac arloesedd.

Mae ein cymuned yma ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, yng Nghymru ac ar draws y byd, wedi bod yn llwyddiant ysgubol dros y pum mlynedd diwethaf. Byddwn yn adeiladu ar y llwyddiant hwn ac rydym nawr wrthi'n ymgymryd â Strategaeth uchelgeisiol ar gyfer 2030.

Mae ein Prifysgol flaengar wedi datblygu, wedi amrywio ac wedi gwella'n sylweddol dros y cyfnod strategol diwethaf ac wedi llwyddo i gynyddu ei throsiant o lai na £100m yn 2017 i dros £150m yn 2023. **Yn 2020 cafodd y Brifysgol ein henwi'n 'Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru 2021' gan *The Sunday Times*; yn 2021 cawsom ein henwi'n 'Brifysgol y Flwyddyn y DU ac Iwerddon' gan y *Times Higher Education* ac yn 2022 cawsom ein rhestru fel y brifysgol orau yn y DU am gynaliadwyedd yng Nghynghrair Werdd *People and Planet* a'r brifysgol orau yng Nghymru yn yr *Arolwg Hynt Graddedigion*.**

Rydw i'n awyddus i rannu ein llwyddiannau, ein huchelgeisiau a'n sialensiau gyda chi er mwyn i chi ddechrau asesu a fydd Met Caerdydd yn iawn i chi. Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i'n llwyddiant a'n partneriaeth sylfaenol ydy honno rhwng y Brifysgol, fel cyflogwr a'r bobl sy'n gweithio ac astudio yma; mae ein staff yn dweud eu bod yn falch o weithio 'i' ac nid yn unig 'ym' Met Caerdydd a meithrin y synnwyr hwn o berthyn ac mae partneriaeth yn allweddol i lwyddiant ein prifysgol a'n myfyrwyr.

Mae hwn yn gyfnod anodd a heriol i Addysg Uwch a phob prifysgol. Mae effaith barhaol y pandemig ar ymddygiad ynghyd â'r pwysau economaidd sy'n llifo o Ryfel Rwsia a Wcráin, wedi gosod paramedrau newydd ar gyfer pob gweithle. Bydd ein His-ganghellor newydd yn wynebu arweinyddiaeth wirioneddol a heriau economaidd a fydd yn gofyn am ddycnwch a doethineb wrth i ni lywio trwy gyfnod anodd. Yn ffodus, mi fyddant yn cymryd drosodd ar brifysgol sydd mewn iechyd da gyda staff ymroddedig sy'n gweithio'n galed.

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd, gyda'i gwreiddiau yn mynd yn ôl i 1865, yn gyrru trawsnewid addysgol a chymdeithasol, mae'n gatalydd ar gyfer arloesedd a'r economi ac yn gyfrannwr allweddol i dwf cynhwysiad a chynaliadwy yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mewn partneriaeth â'n myfyrwyr, staff a'n rhanddeiliaid, rydyn ni'n trawsnewid bywydau drwy addysg uchel ei ansawdd, uchel ei effaith yn seiliedig ar ymchwil ac arloesedd blaengar. Mae ein hymdrechion cydweithredol yn ymestyn o'n dau gampws yng Nghaerdydd i ysgolion, colegau, busnes, diwydiant, elusennau, llywodraeth a chymunedau yn lleol, yn genedlaethol, yn rhyngwladol, yn cynnwys drwy ein partneriaethau addysg traws-genedlaethol helaeth. Mae ein

gwerthoedd yn llywio ein hymdrechion gyda phwrpas, gyda thosturi ac effaith i wneud economïau yn fwy ffyniannus, cymdeithasau yn decach, diwydiannau'n gyfoethocach, amgylcheddau'n wyrddach a chymunedau'n iachach.

Mae gan ein corff cynyddol o staff a myfyrwyr dros 1,600 o staff craidd a thros 25,000 o gofrestriadau myfyrwyr; Mae 23% yn fyfyrwyr rhyngwladol o dros 130 o wledydd gyda dros 33% yn astudio rhaglenni ôl-raddedig. Mae gennym 13,500 ychwanegol o fyfyrwyr mewn 13 o wledydd ar draws y byd yn astudio ein rhaglenni drwy ein 13 o bartneriaid addysg byd eang. Rydyn ni wedi ymrwymo i weithio'n gynhwysol ac i sicrhau amgylcheddau dysgu cynhwysol ac mae gan ein staff synnwyr cryf o gymuned ynghyd â manteision bywyd uchel ei ansawdd a hynny mewn dinas brifysgol llawn egni o dros 50,000 o fyfyrwyr.

Mae ein haddysgu, ein hymchwil a'n harloesedd yn cael effaith ar draws y byd, yng Nghymru ac yng Nghaerdydd, prifddinas Cymru. Datblygodd ein tair Academi Byd-Eang a lansiwyd yn 2020, ymchwil rhyngddisgyblaethol sy'n cael dylanwad rhyngwladol. Mae ein cwricwlwm ar gyfer israddedigion wedi datblygu 'EDGE' Caerdydd yn cynnig galluoedd Moesegol, Digidol, Byd-Eang ac Entrepreneuraidd i'n myfyrwyr; mae ein rhaglen Coleg Agored yn darparu llwybrau dilyniant o addysg bellach ac mae ein prosiect Campws Agored yn croesawu dros 11,000 o blant ysgol i'r campws bob blwyddyn i fanteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd mewn chwaraeon, addysg a iechyd.

Mae ein gwerthoedd yn llywio ein strategaeth a ni oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i gyflwyno cyflog byw gwirioneddol, i dderbyn y Marc Menter Cymdeithasol a Siarter Busnesau Bach a dod yn Brifysgol Seintwar ddynodedig. Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda CARA (Y Cyngor ar gyfer Academyddion mewn Perygl), ac yn ddiweddar wedi croesawu dau Gymrawd CARA o Afghanistan. Ym mis Mawrth 2022, rydyn ni hefyd wedi lansio rhaglen Cymrawd CARA ac Ysgolor Seintwar gwerth £400,000, sef rhaglen gymorth ar gyfer academyddion a myfyrwyr wedi eu halltudio oherwydd y rhyfel yn Wcráin ac rydyn ni'n parhau i gynorthwyo ei partner ymchwil cydweithredol Academi Gelf Genedlaethol Lviv (LNAA), a'n sefydliad 'gefeillio' Universities UK, Prifysgol Addysgeg Genedlaethol H.S. Skovoroda.

Mae ein agenda twf, sydd wedi'i gwireddu drwy ddatblygu dros 60 o raglenni gradd newydd ers 2019 ac sydd wedi'i hamlygu gan gynnydd mewn trosiant o bron i 50% dros y chwe mlynedd diwethaf, yn cael ei llywio gan ein gwerthoedd a'n ffocws ar ein pobl. Mae ein staff wedi gosod Met Caerdydd yn ddewis gyflogwr gorau Capita ymhlith prifysgolion y DU yn 2019 a 2020; ac yn 2020 ein sgor am ymgysylltu â staff oedd y sgor gorau yn y sector (People Insight). Mae Arolwg Rhagoriaeth Ymchwil Ôl-raddedig wedi'n gosod ar ben rhestr y DU ar gyfer goruchwyliaeth ac ar gyfer adnoddau a sgiliau ymchwil yn 2022; ac mae ein myfyrwyr a addysgir wedi cael eu cynorthwyo i greu busnesau cychwynnol ar ôl graddio sy'n ein gosod yn gyson ymhlith 10% o brifysgolion gorau'r DU.





Mae ein cyfradd recriwtio myfyrwyr cartref a rhyngwladol yn galonogol. Mae ceisiadau ar gyfer astudio yn y brifysgol wedi cynyddu 24% o'r hyn oedd yn 2020 pan ystyriai Canolfan Llywodraethiant Cymru (2020) mai Met Caerdydd oedd y brifysgol fwyaf ariannol gynaliadwy yng Nghymru.

Drwy ein Strategaeth 2030 uchelgeisiol, rydyn ni nawr yn cychwyn ar gyfnod nesaf ein twf strategol o ran ystod, graddfa a pherfformiad i fynd â ni o fod yn 'rhagorol' i fod yn 'nodedig'. Mae ein strategaeth newydd yn blaenoriaethu buddsoddi helaeth yn ein campysau, gan fanteisio i'r eithaf ar ein sefyllfa ariannol gref, benthyciadau isel iawn, a'n llwybr twf hir sefydlog ymhlith ein myfyrwyr. Bydd buddsoddi mewn adeiladau newydd ac ailwampio hen adeiladau, cyfleusterau chwaraeon ychwanegol, neuaddau preswyl ar gyfer myfyrwyr, technoleg ddigidol a gwneud ein campysau'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd yn atgyfnerthu profiad ein myfyrwyr a'n helpu ni i wireddu ein huchelgais, er mwyn bod yn gydnaws â nod Llywodraeth Cymru a Chyngor Dinas Caerdydd i fod yn gampws Sero Net erbyn 2030.

Er bod y pandemig Coronafeirws yn ddi-os wedi bod yn heriol i'r sector addysg uwch, mae Met Caerdydd wedi ymateb yn ardderchog ac mae perfformiad y Brifysgol yn parhau i fod ymhlith y cryfaf yn y sector o ran adlewyrchu boddhad staff a myfyrwyr, recriwtio a chanlyniadau myfyrwyr, ymchwil ac arloesedd , cydweithredu rhyngwladol a'n cenhadaeth ddinesig.

Yn wir, nodwyd ein twf, ein hamrywiaeth, gwelliant a'n hymateb i bandemig COVID-19 gan feirniaid pan ddyfarnwyd teitl Prifysgol y Flwyddyn y Du ac Iwerddon y 'Times Higher Education' i Met Caerdydd ym mis Tachwedd 2021:

*"Mewn blwyddyn a gafodd ei dominyddu gan COVID-19, dangosodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yr ymateb tawel, cyson sydd ei angen ar adegau o argyfwng. Trwy weithredu'n gynnar, a thrwy gydweithio i gefnogi a chynnal cymuned gyfan y brifysgol, gosododd arweinyddiaeth Met Caerdydd naws a safon a oedd yn nodweddiadol o ymateb y sefydliad cyfan.*

*"Yn ystod y blynyddoedd mwyaf anodd, ni chollodd Met Caerdydd olwg ar y daith yr oedd arni cyn COVID, a gwnaeth yn siŵr bod ei chynllun ar gyfer twf ac adfywiad yn cael ei ddilyn drwodd. Gwnaeth hynny gyda sgil, ymrwymiad a dewrder, gan gydbwyso risg yn ddoeth drwy'r cyfan."*

Wrth i ni ddod allan o'r pandemig dwy flynedd Strategaeth 2030 newydd ar gyfer Met Caerdydd, mae hwn yn amser cyffrous i ymuno â'n Prifysgol ac i weithio gyda ni a'n partneriaid wrth i ni ymdrechu i ddatblygu o fod yn 'rhagorol' i fod yn 'nodedig' o ran cyflawni twf cynhwysol a chynaliadwy mewn cyd-destun a lunnir gan ein cyd-werthoedd a'n huchelgeisiau ac yn gydnaws ag amcanion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru a Thargedau Datblygiad Cynaliadwy Y Cenhedloedd Unedig.

Lluniwyd y pecyn ymgeiswyr hwn i'ch helpu i benderfynu a ydy'ch profiad, eich sgiliau, eich uchelgeisiau a'ch gwerthoedd yn gydnaws â'n datblygiad fel cymuned uchel ei pherfformiad, dylanwadol, cydweithredol a thosturiol.
Gobeithio y cewch y wybodaeth sydd yma ac ar y wefan yn ddefnyddiol wrth i chi fynd ati i wneud cais ac mae croeso i chi gysylltu â ni os bydd gennych unrhyw gwestiwn.

Dymuniadau gorau,

**John Taylor CBE**
CMgr, CCMI, DLitt




Cardiff
Metropolitan
University
Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

# Perfformiad Tablau Cynghrair

Roedd gwobr **'Prifysgol y Flwyddyn yng Nghymru 2021'** gan *The Times* a'r *Sunday Times* yn cydnabod perfformiad cryf Met Caerdydd yn Arolwg Cenedlaethol i Fyfyrwyr 2020 lle ymddangosodd y Brifysgol yn 40 uchaf y DU am foddhad ag ansawdd addysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr. Rhoddwyd sylw penodol i ddatblygiad Ysgol Dechnolegau Caerdydd, a lansiwyd yn 2018 ac sydd bellach â dros 1,000 o fyfyrwyr, â'n cyfraniad maith a rhagorol at berfformiad a chyfranogid chwaraeon.

Cafodd y Brifysgol ei henwi'n **'Prifysgol y Flwyddyn y DU ac Iwerddon 2021'** gan *The Times Higher Education*, gan gydnabod Met Caerdydd fel prifysgol ag arweinyddiaeth strategol dosturiol, cyllid cynaliadwy, enw da sy'n gwella'n gyflym ac ymdeimlad cryf o gymuned wedi'i hategu gan werthoedd sy'n llywio ymdeimlad o bwrpas a rennir ac sy'n ysgogi ymagwedd flaengar at effaith. Tynnodd y beirniad sylw at y ffyrdd y mae'r Brifysgol wedi sefydlu ei hun fel prifysgol flaengar sy'n cael ei gyrru gan werthoedd gyda phrofiad rhagorol i fyfyrwyr, diwylliant rhagorol i staff ac ymchwil ac arloesedd effeithiol. Amlygwyd ar arweinyddiaeth dosturiol a'r dull rhagweithiol o reoli effaith pandemig y Coronafeirws hefyd fel nodweddion o berfformiad rhagorol Met Caerdydd.

Ym mis Rhagfyr 2022, cafodd Met Caerdydd ei chydnabod fel **y brifysgol orau yn y DU am gynaliadwyedd** gan *People & Planet.* Gellir priodoli'r perfformiad gwych hwn i'n hymrwymiad i beidio â buddsoddi yn y diwydiant ffiniau a gostyngiad o 65% mewn allyriadau carbon rhwng 2005/6 a 2020/21.

Mae cydweithwyr a myfyrwyr wedi gweithio'n galed dros oes y Cynllun Strategol cyfredol i gyflenwi gwelliannau ym mhob un o dablau'r prif gynghreiriau yn 2022:

**The Complete University Guide: 72ain (o 130) yn 2022, i fyny o 96fed yn 2019**

**The Guardian Good University Guide: 73ain (o 121) yn 2022, i fyny o 113fed yn 2019**

**The Times Good University Guide: 93ain (o 132) yn 2022, i fyny o 112fed yn 2019**

**THE World University Rankings 2022: Y bandio 1,001-1,200**

**Postgraduate Research Experience Survey 2022: 1af ar gyfer adnoddau a 1af ar gyfer goruchwyliaeth**

**Y brifysgol orau yn y DU ar gyfer cynaliadwyedd 2022/23**

Yn yr Arolwg Staff diweddaraf gan People Insights ym mis Mehefin/Gorffennaf 2022 cafodd Met Caerdydd y sgôr uchaf am ymgysylltu ymhlith yr holl SAU a fu'n cymryd rhan (oddeutu 40 SAU rhwng 2018 a 2021)

**85%** o'r staff yn cytuno bod Met Caerdydd yn lle da i weithio ynddi

**83%** o'r staff yn cytuno bod Met Caerdydd wedi'i hymrwymo i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

**85%** yn cytuno eu bod yn falch o weithio i'r Brifysgol

**81%** o'r staff yn dweud eu bod yn falch o weithio i Met Caerdydd

**74%** yn cytuno bod yn brifysgol yn cymryd y camau cywir i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd

**77%** yn cytuno eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y Brifysgol

# Cymuned yn Seiliedig ar Werthoedd



Mae llwyddiant diweddar, fel y gwelir ym maes ymglymu a deilliannau myfyrwyr, canlyniadau tabl cynghrair a dyfarniadau, yn cydnabod bod Met Caerdydd yn sefydliad yn seiliedig ar werthoedd, sy'n ymdrechu i ehangu cyfleoedd addysgol, cyrhaeddiad ac effaith drwy sefydlu cymuned gydlynol, cydweithredol a thosturiol. Drwy gydol y sialensiau pandemig Coronafeirws, mae'r cyfuniad hwn o gynaladwyedd ariannol a synnwyr o gymuned wedi'n galluogi i fyw ein cyd-werthoedd sef Creadigrwydd, Rhyddid, Amrywiaeth, ac Arloesedd a'n harferion gwerthoedd o Arweinyddiaeth , Ymddiriedaeth, Dewrder ac Atebolrwydd.

Er bod y pandemig Coronafeirws wedi golygu'r cyfnod gwaethaf i Gymru a'r DU yn ehangach, mae wedi dangos Prifysgol Met Caerdydd ar ei gorau: sicrhaodd y staff academaidd a gwasanaethau proffesiynol fod dysgu ac addysgu o ansawdd uchel wedi parhau a chynnig cymorth i ddiwallu anghenion iechyd meddwl myfyrwyr; dychwelodd staff a myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol weithio ar y rheng flaen; arhosodd staff gwyddorau biofeddygol yn y gwaith i arloesi ymchwil i brofi am wrthgyrff; cynorthwyodd y myfyrwyr darpar athrawon rieni i addysgu eu plant gartref; creodd gwyddonwyr a chynllunwyr cynnyrch Gyfarpar Diogelu Personol a chyfarpar profi soffistigedig a'u rhoi i bobl; cadwodd staff chwaraeon ein cymuned yn actif gyda rhaglenni llesiant ar-lein; cawson ni gymorth gan staff ystadau i gynnal canolfan rhoddwyr gwaed cenedlaethol Cymru ynghyd â chanolfan profi am Covid ar y campws a thrwy hynny gostwng y nifer o bobl a fyddai'n ymweld ag ysbyty, a rheolodd staff gwasanaethau masnachol lety ac arlwyo ar gyfer gweithwyr rheng flaen, myfyrwyr rhyngwladol ac ar gyfer y rhai oedd wedi gadael gofal yr oedd Met Caerdydd wedi bod yn gartref iddyn nhw drwy'r gwahanol gyfnodau clo.

Mae ein staff a'n myfyrwyr yn teimlo synnwyr cryf o berthyn a thros y ddwy flynedd ddiwethaf, iechyd corfforol, sefyllfa ariannol a iechyd meddwl a llesiant ein staff a'n myfyrwyr fu wrth wraidd ein penderfyniadau a'n hymateb.

Trwy gyflawni'r Cynllun Strategol, a'r ymateb i bandemig y Coronafeirws, mae ein staff proffesiynol ac aymrwymedig iawn wedi sefydlu llwyfan positif y gellir adeiladu cyfnod nesaf ein datblygiad arno.


# Y Brifysgol

Mae gogwydd portffolio academaidd Prifysgol Metropolitan Caerdydd tuag at addysg ac ymchwil sy'n ffocysu ar ymarfer a' chael cydnabyddiaeth yn broffesiynol. Mae ein rhaglenni a addysgir yn gydnaws ag agenda ymchwil ac arloesedd y Brifysgol ac yn cyflenwi'r amgylchedd o ran effaith ar ystod eang o feysydd ar draws meysydd celf, dylunio a'r amgylchedd, busnes a rheolaeth, addysg a pholisi cymdeithasol, chwaraeon a gwyddorau iechyd a gwyddorau digidol a data, cyfrifiadureg, roboteg a thechnolegau peirianyddol.

Yn gyfredol, mae gan y Brifysgol oddeutu 12,500 o fyfyrwyr wedi'u lleoli ar ddau gampws yng Nghaerdydd a thros 13,500 o fyfyrwyr trawsgenedlaethol sy'n astudio cyrsiau gradd Met Caerdydd mewn sefydliadau partner mewn 13 o wledydd ledled y byd. Daw myfyrwyr o dros 130 o wledydd ac ymhlith ein myfyrwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd mae 57% yn dod o Gymru, mae 23% yn fyfyrwyr rhyngwladol, mae 15% yn dod o leiafrifoedd ethnig Du ac Asiaidd, mae 54% yn fenywod, 37% yn dod o gymdogaethau isel eu cyfranogiad ac mae 33% yn astudio cyrsiau gradd ôl-raddedig.

Ar ôl newid sylweddol yn ddiweddar, mae'r Brifysgol mewn sefyllfa ariannol gadarn gyda throsiant wedi cynyddu o ychydig o dan £100m yn 2017/18 i fod dros £137m yn 2021/22. Rhagwelir y bydd yr alldro ariannol ar gyfer 2022/23 dros £150m a thros £158m ar gyfer 2023/24. Mae cynhyrchu swm sylweddol o arian, gan gynnwys gwarged arian ar gyfartaledd o dros 10% bob blwyddyn yn ystod y pum mlynedd diwethaf, yn parhau i alluogi'r Brifysgol i fuddsoddi yn natblygiad ei champysau a'i chyfleusterau. Mae Prif Gynllun newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer byd ôl-Covid a rhaglen o drawsnewid sy'n gosod cynaliadwyedd, iechyd a lles wrth galon y ddau gampws.

Mae ein Prifysgol wedi tyfu ac wedi arallgyfeirio dros y tair blynedd diwethaf drwy ddatblygu dros 60 o raglenni gradd newydd ac ail-ddilysu dros 80 o raglenni sydd eisoes yn bodoli, er mwyn diwallu galw myfyrwyr ac anghenion cyflogwyr. Ymhlith y rhaglenni newydd mae ystod eang o ddarpariaeth ym maes Cyfrifiadureg, Peirianneg, Diogelwch Seibr, Roboteg a Gwyddorau Data ynghyd â rhaglenni newydd mewn Addysg Gychwynnol Athrawon, Y Gyfraith, Plismona, Pensaernïaeth, Y diwydiant Awyrennau ac mewn gwyddorau iechyd a phroffesiynau cysylltiol, a llawer ohonyn nhw wedi cynorthwyo gyda'r ymateb i COVID-19 a'r adferiad.



# Ardderchog i Ragorol

Bydd Strategaeth 2030 yn cynnal y momentwm a sefydlwyd dros y pum mlynedd diwethaf fel bod modd i Met Caerdydd gyflawni'n llawn ei huchelgais o gael ei sefydlu fel **prifysgol nodedig a blaengar sy'n perfformio'n dda**




gydag enw da, cyllid cynaliadwy, partneriaethau proffesiynol arloesol a chyrhaeddiad ac effaith leol, genedlaethol a byd-eang sylweddol.

Bydd Strategaeth 2030 yn adeiladu ar yr ymdeimlad o bwrpas, proffesiynoldeb a dyhead a ddatblygwyd gan y strategaeth lwyddiannus a lansiwyd yn 2017. Bydd Strategaeth 2030 yn ehangu ymhellach ar ffocws y sefydliad ar werthoedd, profiadau dysgu rhagorol sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer bywyd, ac ymchwil ac arloesedd sydd ag effaith bwrpasol a chyrhaeddiad byd-eang. Byddwn yn ymateb i alw myfyrwyr ac anghenion cyflogwyr i fynd i'r afael â heriau nodedig lleol, cenedlaethol a byd-eang, wrth i ni ailadeiladu ein heconomi a'n cymdeithas yn dilyn y pandemig, gan wella enw da a sefydlogrwydd ariannol y Brifysgol.

# Met Caerdydd 2030: Ein Gweledigaeth

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn brifysgol flaengar. Rydyn ni'n gweithio gyda **phwrpas, effaith a thosturi** ac mewn partneriaeth bob amser. Rydyn ni'n gwneud economïau yn fwy ffyniannus, cymdeithasau'n decach, diwylliannau'n gyfoethocach, amgylcheddau'n wyrddach, a chymunedau'n iachach. Mewn partneriaeth â'n myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid, rydyn ni'n trawsnewid bywydau unigol, Cymru a'r byd ehangach drwy **addysg** o ansawdd uchel ag effaith uchel, wedi'i llywio gan ein **hymchwil** a'n **harloesedd** blaengar.

Mae Strategaeth 2030, a ddatblygwyd ar ôl cael teitl **'Prifysgol y Flwyddyn y DU ac Iwerddon 2021'** gan Times Higher Education, yn amlinellu sut byddwn ni'n parhau i dyfu, amrywio a gwella, gyda'r nod o gyrraedd hanner cant o brifysgolion gorau yn y Deyrnas Unedig erbyn 2030, a chyrraedd a dringo rhestr QS o brifysgolion y byd, sy'n allweddol ar gyfer recriwtio rhyngwladol cynaliadwy ac o ansawdd uchel. Bydd gwella ein henw da yn gwneud Met Caerdydd yn brifysgol dewis cyntaf i fyfyrwyr sy'n astudio ac academyddion sy'n ymchwilio ym meysydd:

- celf a dylunio
- busnes a rheolaeth
- addysg a gwasanaethau cyhoeddus
- chwaraeon a gwyddorau iechyd
- technolegau a pheirianneg
- amgylchedd a chynaliadwyedd.

Mae ein partneriaethau yn ymestyn o'n campysau prifysgol yng Nghaerdydd i addysg bellach, busnes, diwydiant, elusennau, llywodraeth a chymunedau yng Nghymru a Phrydain. Mae ein **partneriaid addysg byd-eang** yn darparu graddau o ansawdd uchel ledled y byd, tra bod ein **cydweithrediadau ymchwil rhyngwladol** yn gweithio i ddatrys rhai o'r heriau byd-eang mwyaf sefydledig. Byddwn ni'n datblygu ein **cysylltiadau rhyngwladol, ein diplomyddiaeth ddiwylliannol a'n grym cymell tawel** gyda'n **harweiniad meddwl** a'n gweithredoedd fel Prifysgol Noddfa, gan chwarae rôl allweddol i sefydlu Cymru fel Cenedl Noddfa.

Rydyn ni'n ymgorffori diwylliant o berfformiad uchel gydag ôl-troed carbon isel, gan newid y byd drwy ddod yn brifysgol carbon sero net ar draws ein campysau erbyn 2030.

# Campysau'r Brifysgol

Mae gan Met Caerdydd ddau gampws addysgu, Campws Cyncoed yng ngogledd-ddwyrain y ddinas a Champws Llandaf ar Rodfa'r Gorllewin yng ngogledd-orllewin y ddinas. Mae dau gampws llai arall; Plas Gwyn, ger Campws Llandaf, sy'n gartref i breswylfeydd myfyrwyr ac Alexander House, oddi ar Rodfa'r Gorllewin ger Campws Llandaf, ac a brynwyd yn ddiweddar i ddarparu gofod dylunio ac arloesi o'r radd flaenaf ac i gartrefu nifer o wasanaethau proffesiynol. Mae'r ddau brif gampws yn cynnig amgylcheddau rhagorol i weithio, astudio ac ymlacio ynddynt ac mae pob un wedi'i amgylchynu gan fannau gwyrdd helaeth a choetir sy'n cefnogi pwyslais y Brifysgol ar iechyd a lles.

**Campws Cyncoed** (isod) yw prif gartref Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd ac Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd. Mae'r campws yn cynnig cyfleusterau chwaraeon rhagorol sy'n adlewyrchu enw da'r Brifysgol ers tro fel prifysgol flaenllaw Cymru ar gyfer chwaraeon perfformio elitaidd ac ehangu cyfranogiad mewn chwaraeon. Mae ganddi ganolfan awyr agored, ffreutur fawr, neuaddau preswyl myfyrwyr, siop ar y safle a bariau coffi ac mae'n gweithredu fel prif swyddfa Undeb y Myfyrwyr ac Athletau.

Mae Cyncoed hefyd yn gartref i NIAC, y Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol. Mae'r cyfleuster wedi'i gyfarparu'n llawn i safon ryngwladol ac mae ganddo le i 690 o wylwyr eistedd. Defnyddir NIAC gan fyfyrwyr ar gyrsiau chwaraeon, clybiau myfyrwyr a'r cyhoedd ehangach. Mae cyrff llywodraethu chwaraeon, gan gynnwys Athletau Cymru a Phêl-rwyd Cymru, hefyd yn defnyddio'r cyfleuster hwn yn rheolaidd. Mae gwasanaethau meddygaeth chwaraeon wedi'u lleoli o fewn NIAC ac yn cynnwys ffisiotherapi a thylino chwaraeon. Defnyddir NIAC i gynnal digwyddiadau mawr ac, y tu allan i'r calendr chwaraeon, mae ganddo'r hyblygrwydd i gael ei drawsnewid yn Ganolfan Gynadledda.









**Campus Llandaf** (uchod) yw cartref Ysgol Reoli Caerdydd, Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd ac Ysgol Dechnolegau Caerdydd a sefydlwyd yn ddiweddar. Gyda miliynau o bunnoedd o fuddsoddiad diweddar yn Ysgol Dechnolegau Caerdydd a Chanolfan Myfyrwyr newydd Barbara Wilding, yn ogystal â chynnydd mewn cyfleusterau dysgu o'r radd flaenaf i'n myfyrwyr, mae'r campws yn cynnig campfa a chyfleusterau chwaraeon, swyddfeydd Undeb y Myfyrwyr, siop ar y safle, tri bar coffi, a ffreutur mawr. Lleolir y campws tua dwy filltir o ganol y ddinas ac mae wedi'i amgylchynu gan barciau, coetir, caeau chwarae, Afon Taf ac Eglwys Gadeiriol hanesyddol Llandaf.

Cynllunir buddsoddiad o dros £150 miliwn ar gyfer y ddau gampws; adeiladau academaidd helaeth newydd wedi'u hailwampio a chyfleusterau chwaraeon ac iechyd pellach yn yr arfaeth ar gyfer Campws Cyncoed ac ar Gampws Llandaf mae gwaith pellach wedi'i gynllunio i gynnwys ehangu'r Brifysgol a chynnig gwelliannau pellach ym mhrofiad myfyrwyr ac amgylchedd gwaith hybrid i staff. Mae cynlluniau hefyd i ddatblygu uwch-briffordd feicio mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd, gyda'r briffordd wedi'i lleoli ar berimedr Campws Llandaf ac yn ymestyn i ganol y ddinas ac ymlaen i Fae Caerdydd gan alluogi pedestreiddio canol y campws i wella iechyd, lles a'r amgylchedd.

# Strwythur Gweithredol a Sefydliadol

- **Bwrdd y Llywodraethwyr**
  - 
    Llywydd ac Is-Ganghellor
    **Yr Athro Cara Aitchison**
    - 
      Ysgrifennydd Dros Dro'r Brifysgol
      **Emma Potts**
    - 
      Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi
      **Yr Athro Sheldon Hanton**
      - Cyfarwyddwr Ymchwil — **Yr Athro Steve Gill**
      - Cyfarwyddwr Arloesi — **Matthew Taylor**
      - Cyfarwyddwr Chwaraeon — **Ben O'Connell**
    - 
      Dirprwy i'r Is-Ganghellor
      **Yr Athro Rachael Langford**
      - Uwch Ddeon/ Deon Ysgol Reoli Caerdydd — **Yr Athro David Brooksbank**
      - Deon Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd — **Yr Athro Katie Thirlaway**
      - Deon Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd — **Yr Athro Julia Longville**
      - Deon Dros Dro Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd — **Dr Bethan Gordon**
      - Deon Ysgol Dechnolegau Caerdydd — **Yr Athro Jon Platts**
      - Cyfarwyddwr Marchnata, Cyfathrebu a Recriwtio Myfyrwyr*
      - Cyfarwyddwr Ymgysylltu Byd-Eang
    - 
      Dirprwy Is-Ganghellor Ymgysylltu â Myfyrwyr
      **Yr Athro Jacqui Boddington**
      - Cyfarwyddwr Gwella Dysgu — **Dr Jo Hendy**
      - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr — **Kirsty Palmer**
      - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol a Llyfrgell*
      - Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Gofrestrfa — **Ben Rogers**
    - 
      Prif Swyddog Adnoddau
      **David Llewellyn**
      - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl — **Ashley Flaherty**
      - Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau*
      - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol — **Mark Barry**

| | |
|---|---|
| **Lefel 1:** | Is-Ganghellor a Chadeirydd Grŵp Gweithredol yr Is-Ganghellor, Bwrdd Academaidd a'r Bwrdd Rheoli |
| **Lefel 2:** | Aelodau o Grwp Gweithredol yr Is-Ganghellor a Chadeiryddion Pwyllgorau'r Brifysgol |
| **Lefel 3:** | Deoniaid a Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau |

* Wedi'i bendodi ac yn dechrau yn y flwyddyn academaidd newydd

# Ysgolion Academaidd y Brifysgol

Mae'r Brifysgol wedi'i strwythuro'n bum Ysgol Academaidd sy'n cynnig dros 250 o wahanol raglenni academaidd a phroffesiynol:

- Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd
- Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd
- Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd
- Ysgol Reoli Caerdydd
- Ysgol Dechnolegau Caerdydd

**Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd**
Ysgol Gelf a Dylunio Brydeinig gyda hanes o 150 mlynedd, mae Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd (YGDC) wedi'i lleoli mewn adeilad o'r radd flaenaf ar Gampws Llandaf ac mae'n gartref i fyfyrwyr sydd wedi'u huno gan uchelgais a gwir angerdd am ymholi creadigol. Maent yn artistiaid, dylunwyr, gwneuthurwyr a meddylwyr ym meysydd pensaernïaeth, dylunio, ffasiwn, celfyddyd gain, ac ystod o ddisgyblaethau crefft.

Mae'r cwricwlwm yn arloesol ac yn rhyngddisgyblaethol, gan ganiatáu ar gyfer cydweithredu a chyfleoedd trawsnewidiol, gan uno pynciau STEM â chynhwysion creadigol hanfodol Celf a Dylunio. Mae mynediad at gyfleusterau o'r radd flaenaf, ymgysylltu â diwydiant ac amlygiad i ymchwil sy'n arwain y byd yn galluogi myfyrwyr i lywio eu teithiau eu hunain i fod yn ymarferwyr, academyddion y dyfodol, entrepreneuriaid, graddedigion cyflogadwy a chyflogwyr y dyfodol. Mae'r Ysgol hefyd yn gartref i FabLab, y Labordy Profiad Canfyddiadol, cwmnïau Deillio Fovotech a HUG™, a nifer o fentrau ymchwil ac arloesi mawr sy'n cydgysylltu o amgylch canfyddiad gweledol a dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan gysylltu disgyblaethau o gelfyddyd gain â chyfrifiadureg.

Yn fwyaf diweddar mae staff a myfyrwyr wedi bod yn elwa ar bartneriaeth athro gwadd Academi Frenhinol Peirianwyr: Peirianneg Cenedlaethau'r Dyfodol. Nod y dyfarniad tair blynedd hon, y gyntaf erioed ar gyfer Ysgol Gelf a Dylunio, yw trawsnewid yr arferion dysgu ac addysgu yn y brifysgol i alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDG) y Cenhedloedd Unedig a Chanllaw diweddariedig QAA ac Advance HE ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (ESG) (2021) i ddarparu addysg sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan baratoi graddedigion i fod yn gyfryngau ar gyfer newid.

Mae gan yr Ysgol nifer o bartneriaethau rhyngwladol gan gynnwys cydweithrediad ymchwil cyfredol a ariennir gan y Cyngor Prydeinig ag Academi Gelfyddydau Genedlaethol Lviv yn yr Wcráin ac mae cydweithwyr ar hyn o bryd yn cynnig cymorth i'n partneriaid gan eu bod nhw eu hunain yn cynnig cymorth i fyfyrwyr a staff sydd wedi'u dadleoli gan y rhyfel presennol yn yr Wcráin.











**Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd**
Mae Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd (YAPhCC), sydd wedi'i lleoli ar Gampysau Cyncoed a Llandaf, yn cynnig ystod amrywiol ac ysgogol o ragleni israddedig ac ôl-raddedig mewn addysg, plismona, y cyfryngau a newyddiaduraeth, Saesneg ac ysgrifennu creadigol, gwaith cymdeithasol a pholisi cymdeithasol. Dros y chwe blynedd diwethaf mae niferoedd myfyrwyr wedi cynyddu 23% o ganlyniad i gyflwyno nifer o raglenni israddedig ac ôl-raddedig newydd gan gynnwys BA (Anrh) Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig a rhaglen BA (Anrh) Plismona Proffesiynol. Mae darpariaeth helaeth mewn addysg gychwynnol athrawon yn golygu mai Met Caerdydd yw darparwr mwyaf athrawon hyfforddedig Cymru ac mae'r Ysgol wedi bod yn allweddol wrth lunio polisi ac arfer addysg yng Nghymru.

Gan weithio ar y cyd â phartneriaid allanol, ysgolion a sefydliadau, mae'r Ysgol yn sicrhau bod rhaglenni yn ddisgyblaeth-benodol, yn arloesol ac yn berthnasol yn broffesiynol. Mae nifer o raglenni wedi'u hachredu, er enghraifft yr MSc Seicoleg mewn Addysg, BSc (Anrh) Gwaith Cymdeithasol, BA (Anrh) Gwaith Ieuenctid a Chymuned ac Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) a'r BA (Anrh) Plismona Proffesiynol yn cael eu darparu o dan drwydded.

Mae gan yr Ysgol ffocws cryf ar entrepreneuriaeth, cyflogadwyedd a deilliannau graddedigion. Yn 2022 daeth yn Ganolfan Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) i alluogi ein myfyrwyr i ennill Tystysgrif ILM neu Gymhwyster mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Mae llawer o'n myfyrwyr yn ymgymryd â lleoliadau gwaith perthnasol i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer byd gwaith neu astudiaeth academaidd bellach. Mae ein BA (Anrh) Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig yn un rhaglen o'r fath, a gyflwynir yn llawn mewn partneriaeth ag ysgolion. Mae'r Ysgol yn gartref i Bartneriaeth Caerdydd ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon, un o'r canolfannau addysg a hyfforddiant athrawon mwyaf yn y DU ac sy'n adeiladu ar dros 60 mlynedd o brofiad ac enw da rhagorol am ansawdd y ddarpariaeth hyfforddiant athrawon.

Mae'r Ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol yn natblygiad amgylchedd ymchwil cryf a chynaliadwy yn y blynyddoedd diwethaf. Cyflawnwyd hyn drwy gynnydd systematig yng ngallu, maint, ansawdd ac effaith ein hymchwil a hwyluswyd drwy wella'r seilwaith ymchwil, buddsoddi mewn, a datblygu ymchwil gydag effaith, a chefnogi diwylliant ymchwil cydweithredol sy'n agored i bawb, sy'n seiliedig ar uniondeb. Mae gan staff ystod eang o ddiddordebau ymchwil, yn rhychwantu arbenigeddau mewn ymchwil ac ymarfer addysg, llenyddiaeth Saesneg, ysgrifennu creadigol, a pholisi cymdeithasol. Mae gan yr Ysgol hefyd gysylltiadau ymchwil addysgol cryf ag Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Met Caerdydd a'r Ysgol Gelf a Dylunio ac mae'n datblygu dulliau cynyddol bwysig o ran addysg ac ymchwil rhyngddisgyblaethol wedi'u llunio ar y cyd. Mae'r diwylliant ymchwil o fewn yr Ysgol yn fywiog ac yn tyfu ac yn cael ei gefnogi gan ystod eang o fentrau gan gynnwys cyfres o seminarau ymchwil rhithwir wythnosol gyda nifer dda yn bresennol gyda chyflwyniadau gan siaradwyr gwadd, staff YAPhCC, a'n myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

**Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd**
Mae gan Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd (YChGIC) enw da yn fyd-eang am ansawdd ei haddysgu, ei hymchwil a'i harloesedd ym meysydd chwaraeon a gwyddorau iechyd. Mae staff sydd wedi'u lleoli ar draws campysau Cyncoed a Llandaf yn gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr, partneriaid diwydiant, byrddau iechyd, cyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol ac eraill i ddarparu addysg sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd ac ymchwil sy'n cael effaith.

Mae gan ymchwil a wneir yn yr Ysgol sylfaen gymhwysol gref ac mae YChGIC yn gartref i sawl canolfan ragoriaeth gan gynnwys y Ganolfan Iechyd, Gweithgarwch a Lles, y Ganolfan Diwydiant Bwyd, y Ganolfan Datblygiad Corfforol Ieuenctid, a'r Ganolfan Hyfforddi Chwaraeon. Yn 2021 cafodd staff yr Ysgol eu cynnwys yng nghyflwyniadau'r Brifysgol i ddau Is-banel REF: i Uned Asesu (UA) 3 Proffesiwn Perthynol i Iechyd, Deintyddiaeth, Nyrsio a Fferylliaeth ac UA 24 Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff, Hamdden a Thwristiaeth sy'n adlewyrchu ehangder ac ansawdd ein hymchwil.

Mae gan yr Ysgol un o'r portffolios mwyaf blaengar a chyffrous o raglenni israddedig ac ôl-raddedig yn y DU sy'n rhoi'r cyfle i'n myfyrwyr ddatblygu gwybodaeth a sgiliau, ennill profiad ymarferol a defnyddio offer a chyfleusterau sydd ar flaen y gad. Mae llawer o'r rhaglenni wedi'u hachredu'n broffesiynol i fodloni gofynion y proffesiynau chwaraeon a gofal iechyd, ac mae nifer ohonynt yn unigryw yng Nghymru a'r DU. Mae staff a myfyrwyr yn falch o enw da'r BSc Dadansoddi Perfformiad Chwaraeon arloesol sy'n cyflwyno graddedigion sy'n barod i'r diwydiant i FIFA, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Undeb Rygbi Cymru a Hoci Prydain Fawr, i enwi dim ond rhai chwaraeon. Met Caerdydd yw'r unig Brifysgol yn y byd i gynnig Doethuriaeth a Addysgir mewn Hyfforddi Chwaraeon sy'n denu myfyrwyr o bob rhan o'r byd. Y BSc Cyfryngau Chwaraeon a'r MSc Darlledu Chwaraeon yw'r ychwanegiadau diweddaraf i'r portffolio ac fe'u cynlluniwyd i ddiwallu anghenion cynhyrchu cyfryngau a chyfathrebu'r diwydiant chwaraeon sy'n datblygu'n gyflym. Mae sianel deledu Chwaraeon Met Caerdydd y Brifysgol ei hun yn denu cynulleidfaoedd o dros 5,000 yn rheolaidd ar gyfer llawer o gemau chwaraeon y Brifysgol, gyda Met Caerdydd yn chwarae yn Super Rugby BUCS ac yng nghynghreiriau gorau Cymdeithas Bêl-droed Cymru ar gyfer pêl-droed dynion a merched.

Mae'r ysgol hefyd yn gwneud cyfraniad dinesig mawr i chwaraeon, iechyd a lles trwy agor ei champws i dros 2,500 o bobl ifanc bob wythnos. Mae menter y Campws Agored yn galluogi pobl ifanc i brofi bywyd ar gampws prifysgol trwy gymryd rhan mewn rhaglenni chwaraeon a gweithgaredd corfforol a ddarperir gan fyfyrwyr sy'n cael profiad dysgu a hyfforddi dilys tra hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i gymuned Caerdydd.









## Ysgol Reoli Caerdydd

Mae Ysgol Reoli Caerdydd (YRC) yn ddarparwr uchelgeisiol, achrededig o addysg busnes a rheoli. Mae cyfleusterau o'r radd flaenaf ar Gampws Llandaf yn darparu amgylchedd dysgu calonogol a chreadigol, gan arddangos yr Ysgol fel canolfan flaenllaw yn y DU ar gyfer Cyfrifeg, Economeg a Chyllid; Busnes, Rheoli a'r Gyfraith; Marchnata a Strategaeth; a Thwristiaeth, Lletygarwch a Rheoli Digwyddiadau. Mae staff yn gwbl falch o'u cyfraniad sylweddol at adfywio rhanbarthol a thwf economaidd trwy addysgu, gwaith menter ac ymchwil gymhwysol.

Mae arloesi a lle canolog ym mywyd busnes Caerdydd yn allweddol i lwyddiant yr Ysgol. Yr Ysgol Reoli oedd yr ysgol fusnes gyntaf yng Nghymru i dderbyn y Siarter Busnes Bach mawreddog, a amlygodd raglenni dysgu seiliedig ar waith yr Ysgol fel enghreifftiau cenedlaethol o arfer da. Mae'r Nod Siarter bellach yn cael ei ddefnyddio i gyflawni rhaglen Reoli Cymorth i Dyfu Llywodraeth y DU, gan helpu cwmnïau i oroesi a thyfu ar yr adeg heriol hon i'r economi.

Yn sgil twf rhaglenni newydd, lansiwyd rhaglen LLB y Gyfraith sydd ar flaen y gad yn 2020, sydd bellach yn cael ei dilyn gan gyfres o gyrsiau newydd sy'n canolbwyntio ar y gyfraith fel rhai sy'n darparu twf yn y maes pwysig hwn. Mae'r rhain yn ddatblygiadau ymarferol sy'n wynebu'r diwydiant a grëwyd mewn partneriaeth â'r proffesiwn gyda'r nod penodol o wella cyflogadwyedd graddedigion YRC. Yn yr un modd, mae gradd Rheoli Hedfan newydd yn cael ei chyflwyno ar y cyd ag ERAU, prifysgol awyrennol fwyaf a mwyaf mawreddog y byd ochr yn ochr â phartneriaeth ragweithiol â Maes Awyr Caerdydd.

Mae'r Ysgol hefyd yn falch o'r rôl y mae'n ei chwarae wrth gyflwyno rhaglenni ledled y byd. Gyda dros 10,000 o fyfyrwyr yn astudio rhaglenni rheoli gyda'n partneriaid TNE rhyngwladol, mae'r Ysgol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i gyfleoedd bywyd myfyrwyr a chymunedau ledled y byd. Yn nes adref, mae'r Ysgol yn addysgu dros 2,900 o fyfyrwyr rhyngwladol yng Nghaerdydd sy'n creu lle cryf, amrywiol a chyfoethog i weithio ac astudio ynddo. Mae YRC hefyd yn falch ei fod yn gartref i Gymrawd o Afghanistan a ymunodd â ni o dan gynllun Cyngor Academyddion Mewn Perygl (CARA) wrth i ni chwarae ein rhan yn y byd academaidd ledled y byd.

Mae'r Ysgol yn gartref i gyfadran amrywiol a cholegol, sy'n ymateb i anghenion cymunedau busnes rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, ac wedi cychwyn ar gyfnod uchelgeisiol o dwf mewn dwyster ymchwil a datblygu rhaglenni.












**Ysgol Dechnolegau Caerdydd**
Lansiwyd yr Ysgol yn ffurfiol yn 2018 ac fe'i hagorwyd mewn llety ar ei newydd wedd ar Gampws Llandaf yn 2020. Mae gan yr ysgol genhadaeth i ddiwallu anghenion cyflogwyr a galw myfyrwyr mewn dinas a oedd yn prysur ddatblygu fel canolfan arloesi a chyflogaeth ar draws yr ystod o dechnolegau a phrosesau.

Mae Ysgol Dechnolegau Caerdydd (YDC) wedi tyfu'n gyflym ac erbyn hyn mae ganddi dros 1,000 o fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o raglenni sy'n rhychwantu cyfrifiadura, technoleg ddigidol a chlyfar, gwyddor data a gwybodeg, seiberddiogelwch, peirianneg electroneg a roboteg. Mae'r datblygiad cyflym hwn wedi golygu bod angen recriwtio academyddion brwdfrydig i gyfrannu at sefydlu a thwf yr Ysgol trwy addysgu ar draws ystod o fodiwlau israddedig ac ôl-raddedig ac wrth ddatblygu'r amgylchedd ymchwil sylfaenol mewn meysydd allweddol. Mae twf yr Ysgol wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad uchelgeisiol i adeiladu amgylchedd gwaith ysgogol ar gyfer unigolion uchel eu perfformiad.

Mae dros 20 o sefydliadau wedi cymeradwyo'r Ysgol gan gynnwys Sony, y BBC, y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac ystod eang o gwmnïau a cholegau digidol a thechnoleg ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni cymhwysol.

Mae gan yr Ysgol Ganolfan Roboteg EUREKA achrededig a rhaglen o ymchwil a ariennir ym maes roboteg gwasanaeth.



Lleolir yr holl addysgu yn yr Ysgol Dechnolegau ar Gampws Llandaf. Gan adeiladu ar ei chynigion Cyfrifiadureg cryf a phresennol, bydd yr Ysgol yn parhau i adeiladu ar ei galluoedd peirianneg i gynnig ystod o raglenni peirianneg mewn electroneg, rheolaeth, systemau gwreiddio, synwyryddion a pheirianneg systemau. Mae'r datblygiad hwn yn ategu galluoedd presennol yr Ysgol mewn roboteg gan alluogi datblygu cymwysiadau ehangach a mwy uchelgeisiol o fewn parth systemau ymreolaethol, Rhyngrwyd Pethau a Chwyldro Diwydiannol 4.0.

# Ein Cyrhaeddiad Byd-Eang a Phartneriaethau

Mae gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr, staff, cyn-fyfyrwyr a rhanddeiliaid allanol yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn allweddol i'n pwrpas o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r byd o'n cwmpas. Mae ein partneriaethau'n ymestyn o'n campysau prifysgol yng Nghaerdydd i addysg bellach, busnes, diwydiant, elusennau, llywodraeth a chymunedau yng Nghymru a'r DU a ledled y byd.

Mae Met Caerdydd yn brifysgol fyd-eang gyda rhwydwaith helaeth o bartneriaid addysgol rhyngwladol, swyddfeydd, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr ledled y byd. Mae staff a myfyrwyr yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn ein 13 partner addysg trawswladol i ddarparu graddau Prifysgol Metropolitan Caerdydd dramor, gan ehangu'r cyfle i brofi ein rhaglenni ymarferol o ansawdd uchel â gogwydd proffesiynol sy'n helpu i feithrin sgiliau, hyder a gallu.

Mae galw sylweddol ymhlith myfyrwyr rhyngwladol am leoedd ar ein rhaglenni ôl-raddedig ac israddedig ar y campws hefyd, gyda thwf sylweddol a pharhaus diweddar mewn cofrestriadau myfyrwyr rhyngwladol ym mhob un o'n pum Ysgol academaidd a thros 2,900 o fyfyrwyr rhyngwladol ar y campws eleni.

Mae gan y Brifysgol gysylltiadau cryf â cholegau AB ledled Cymru ac yn arbennig gyda Choleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, Coleg Gwent, Coleg Gŵyr, Coleg y Mynydd Du a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n cefnogi datblygiad darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg. Ceir cydweithredu helaeth trwy bartneriaethau AB i gefnogi cynhwysiant, ehangu mynediad ac arloesi yn y ddarpariaeth, fel y dangosir gan yr ystod o gyfleoedd dysgu sydd ar gael y tu hwnt i raglenni israddedig ac ôl-raddedig traddodiadol, trwy fynediad, cyrsiau byr, prentisiaethau gradd a llwybrau micro-grededd.

Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r Coleg Cymraeg yn arwain datblygiad addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi a datblygu addysgu, dysgu ac ymchwil cyfrwng Cymraeg.

Mae cydweithrediadau ymchwil Met Caerdydd yn gweithio i ddatrys rhai o'r heriau byd-eang mwyaf sefydledig trwy allbynnau ymchwil, cyfnewid gwybodaeth a phartneriaethau arloesi mewn prosesau, ymarfer a pholisi. Mae partneriaethau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol yn cefnogi agendâu datblygiad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol drwy'r Academïau Byd-eang a'r canolfannau ymchwil, gan sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol ac adferiad economaidd ôl-bandemig o fewn economi fyd-eang decach a gwyrddach sy'n sicrhau dyfodol cynaliadwy.

Fel sefydliad angori ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, De Cymru, ac ardal Porth y Gorllewin, mae Met Caerdydd yn cefnogi cymunedau, busnesau a diwydiannau drwy ehangu mynediad i gyfleusterau, doniau ac adnoddau'r Brifysgol i chwarae rhan sylweddol a gweladwy wrth adeiladu ffyniant. Mae prosiect Colegau Agored Caerdydd yn codi dyheadau a safonau addysg tra bod y rhaglen Campws Agored yn darparu chwaraeon, gweithgaredd corfforol, chwarae awyr agored, iechyd a lles tra hefyd yn darparu llwybrau i fyfyrwyr ennill sgiliau ymchwil gwerthfawr a phrofiad gwaith.

Fel prifysgol chwaraeon Cymru, mae gan Met Caerdydd berthnasoedd eithriadol o gryf gyda sefydliadau partner a chyrff llywodraethu ar gyfer chwaraeon allweddol yng Nghymru a'r DU. Mae'r Brifysgol hefyd yn rhedeg swyddogaeth datblygu chwaraeon Cyngor Dinas Caerdydd ac mae bellach ar adeg gyffrous yn ehangiad y gwaith partneriaeth chwaraeon hwn gyda datblygiad uwchgynllun ystadau newydd a datblygiadau strategol chwaraeon elitaidd a chymunedol, gan fanteisio ar chwaraeon fel ysgogiad ar gyfer lles cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ehangach.



# Dysgu ac Addysgu Eithriadol





Mae staff Met Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr i hwyluso gwelliant parhaus profiad dysgu sydd wedi'i gynllunio i gefnogi llwyddiant myfyrwyr o fewn a thu hwnt i'r Brifysgol a thrwy hynny alluogi ein myfyrwyr i wireddu uchelgeisiau personol a phroffesiynol.

Ymgorfforodd Cynllun Strategol 2017/18 - 2022/23 y Brifysgol yr ymrwymiad hwn i ddeilliannau rhagorol i fyfyrwyr o fewn eu profiad dysgu trwy EDGE Met Caerdydd, fframiad o'r cwricwlwm sy'n ymgorffori sgiliau moesegol, digidol, byd-eang ac entrepreneuraidd wrth gyflwyno pynciau gradd arbenigol. Atgyfnerthir y dull hwn gan dystiolaeth o berfformiad gwell o ran deilliannau graddedigion sydd bellach yn gosod Met Caerdydd ar y blaen i'r sector ac yn gyntaf yng Nghymru ar gyfer graddedigion mewn gwaith neu astudiaeth bellach 15 mis ar ôl gadael y Brifysgol (data 2022).

Mae profiad o weithio gyda myfyrwyr i gyd-gynllunio addysgu yn ystod pandemig COVID-19 wedi arwain at ymhelaethu ar ddulliau dysgu gweithredol gyda dosbarthiadau bach, lefelau uchel o gyswllt dosbarth a thiwtora personol effeithiol yn darparu strwythur dynol-ganolog y mae myfyrwyr yn elwa ohono, dysgu seiliedig ar broblemau, profiad gwaith, gwirfoddoli, a symudedd rhyngwladol. Cynlluniwyd yr ymrwymiadau hyn i brofiad myfyrwyr effeithiol ac ymgysylltiol i mewn i'r cwricwlwm yn hytrach na'u 'hychwanegu' ac mae'n sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bob myfyriwr gan arwain at welliant parhaus ym metrigau parhad a boddhad myfyrwyr ar bob lefel.

Ategir y profiad dysgu gan weithgaredd helaeth i gefnogi lles myfyrwyr gyda'r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr yn darparu ystod o weithgareddau cefnogi lles unigol, cyfoedion, grŵp a chymdeithasol i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael mynediad at y cyngor cywir a chymorth i ymgysylltu'n weithredol â'u dysgu presennol a chyda chynllunio ar gyfer eu dyfodol ar ôl graddio.

Mae Met Caerdydd yn parhau i ehangu'r portffolio i ddarparu ystod o gyfleoedd addysgol i fyfyrwyr o Gymru a'r byd ehangach a gyda dros 60 o raglenni newydd wedi'u datblygu ers 2019. Yn yr un cyfnod hefyd rhoddwyd blaenoriaeth uwch i ddatblygu darpariaeth addysg uwch yn y coleg gyda'n partneriaid AB; mae recriwtio ar gyfer AB wedi cynyddu'n fawr ers 2021 a chyflymwyd y gwaith o ddatblygu cyfres o ficro-gymhwysterau ym maes chwaraeon a phroffesiynau perthynol i iechyd.

Mae Met Caerdydd bellach yn y broses o ddatblygu manylion y dulliau dysgu ac addysgu i gefnogi Strategaeth 2030, gyda'r nod o ddefnyddio'r cam strategol nesaf hwn i adeiladu cymuned ddysgu sy'n gysylltiedig â dulliau datrys problemau rhyngddisgyblaethol gan alluogi myfyrwyr i gwrdd â heriau'r 21ain ganrif gyda dawn entrepreneuraidd, tra'n cynnal ein cred mewn lles sy'n rhagflaenydd i lwyddiant. I'r perwyl hwn bydd profiadau a gofodau dysgu yn cael eu dylunio i sicrhau bod myfyrwyr yn datblygu ymdeimlad o berthyn o fewn cymuned ddysgu sy'n ffurfio'r llwyfan y gallant gyrraedd eu huchelgais ohono.

# Ymchwil ac Arloesedd

Mae gwaith ymchwil ac arloesi a gyflawnir ym Met Caerdydd ar flaen y gad o ran creu gwybodaeth newydd a'i defnydd niferus, sydd wedi'u dylunio i gael effaith uniongyrchol a chadarnhaol ar ein heconomi, ein cymdeithas, ein hamgylchedd a'n diwylliant. Mae ein hymchwilwyr yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau, diwydiannau, llywodraethau, proffesiynau a chymunedau yng Nghymru, Prydain yn ehangach, ac o gwmpas y byd. Mae ymchwilwyr wedi datblygu modelau newydd, wedi dylunio cynhyrchion newydd, ac wedi creu cwmnïau newydd sydd bellach yn taclo rhai o heriau mwyaf cymdeithas. Mae llawer o'n gwaith ymchwil ac arloesi mewn tair Academi Fyd-eang: Iechyd a Pherfformiad Dynol, Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr, a Gwyddor, Diogelwch a Diogelu Bwyd.

Mae gweithgareddau arloesi yn gyson â'n portffolio academaidd o raglenni a addysgir sy'n cyfeirio at addysg, ymchwil ac arloesedd ymarferol a gydnabyddir yn broffesiynol. Mae staff hefyd yn rhan o ystod eang o arloesedd wedi'i lywio gan ymchwil, gan gynnwys Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, ymgynghori, ymchwil contract a hyfforddiant datblygiad proffesiynol. Mae gweithgareddau ymchwil ac arloesi'r Brifysgol yn creu effaith ym maes celf, dylunio a'r amgylchedd, busnes a rheolaeth, addysg a pholisi cymdeithasol, chwaraeon a gwyddorau iechyd a thechnolegau.


Fel sefydliad sy'n seiliedig ar werthoedd, rydyn ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth yn ein hamgylchedd ymchwil. Eleni, mae 49% o'n Hathrawon, Darllenwyr ac Arweinwyr Ymchwil yn fenywod, ac yn rhannol o ganlyniad i'r ymdrech honno ar gyfer cynhwysiant, mae'r degawd diwethaf wedi gweld twf cynyddol mewn incwm ymchwil ac arloesi, gan ddyblu i £13.5 miliwn eleni. Mae llwyddiannau diweddar Ymchwil ac Arloesi y Deyrnas Unedig yn cynnwys grant Strength in Places dros £50 miliwn mewn cydweithrediad â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, Llywodraeth Cymru, partneriaid prifysgol a'r diwydiant, cyllid o £5.45 miliwn gan Glystyrau Creadigol Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, y prosiect camau hwyr dementia LAUGH, a Defnydd Strategol o Ddylunio. Mae llwyddiannau cyllid yr Undeb Ewropeaidd yn cynnwys cyllid gan Marie Sklodowska Curie, grant Prosiect Datblygu Rhanbarthol o £9.2 miliwn, £3.2 miliwn o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop, €1.4 miliwn gan Interreg Europe, grant €1.5 miliwn gan Interreg Atlantic Area, grant €3.9 miliwn ERASMUS+ Key Action 2 a grant Arweinyddiaeth Diwydiannol H2020 o €6.5 miliwn. Yn fwyaf diweddar, enillon ni grant fawreddog 'Springboard' Academi'r Gwyddorau Meddygol ar gyfer ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa.

Yn sail i'r dyfarniadau hyn mae rhaglen flynyddol o alwadau mewnol am gyllid a ddatblygwyd i roi hwb i fentrau ymchwil ac arloesi a rhaglenni datblygu staff sy'n canolbwyntio ar ragor o gyllid allanol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o sesiynau pwll tywod deuddydd i ddatblygu partneriaethau rhyngddisgyblaethol gyda chyllid dilynol i hwyluso'r gwaith o ddatblygu ceisiadau am gyllid allanol; gweithdai 'Dosbarth Meistr Ysgrifennu Grant' pedwar diwrnod ar gyfer staff ymchwil, a REVEAL, sef cynllun cymorth penodol iawn sy'n cefnogi staff gyda phecynnau pwrpasol i gael cyllid grant mawr gan ffynonellau gwerthfawr.



Mae Met Caerdydd yn ymfalchïo yn ei chymhwysiad ymarferol o'i gwybodaeth ymchwil gymhwysol, drwy nifer o ganolfannau ymchwil ac arloesi sy'n canolbwyntio ar y diwydiant.

Er enghraifft, mae **FabLab Caerdydd** yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd yn rhan o rwydwaith fyd-eang FabLab sy'n cynnwys dros 1,700 o labordai ag ardystiad MIT. Mae'n gartref i grŵp ymchwil FabCre8, ac yn rhan o gyfres o weithgareddau effaith. Ymhlith y rhain roedd datblygu llaw prosthetig ar gyfer bachgen pum mlwydd oed, un o'r plant cyntaf yng Nghymru i gael prosthesis a wnaed gan ddefnyddio technoleg argraffu 3D. Ymunodd Cian Morris, a gafodd ei eni heb fysedd wedi'u ffurfio'n llawn ar ei law dde, ag ymchwilwyr ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd i greu'r ddyfais arloesol a gaiff ei gweithredu gan ddefnyddio ei arddwrn yn unig. Mae'r llaw "Raptor", fel y caiff ei galw, sydd wedi'i chreu bron yn gyfan gwbl o blastig, yn caniatáu i'r disgybl ysgol ddal a chodi pethau gyda'i law dde am y tro cyntaf.



**Mae'r Labordy Profiad Canfyddiadol (PEL)** yn ofod realiti rhithwir (VR) cenhedlaeth nesaf ble nad oes angen gwisgo unrhyw gyfarpar arbennig ar eich llygaid. Mae'n cynnig efelychiadau sy'n seiliedig ar sgrin fideo diffiniad tra uchel a thechnoleg ymgolli, symudiad aer, tymheredd, arogl a sain amgylchynol digidol sy'n gallu efelychu sain y lleoliad sy'n cael ei ail-greu (yn hytrach na'r labordy ei hun). Yn y labordy, mae meddalwedd arsylwi defnyddwyr o'r radd flaenaf sydd â'r gallu i recordio fideo, dadansoddi mynegiant yr wyneb ac olrhain llygaid, ymateb y croen i emosiynau, symudiad, sain a data sy'n dangos newid mewn curiad calon. Mae wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer nifer o astudiaethau gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu deunydd pacio bwyd, hyfforddiant ardystio safonau bwyd, ac astudiaethau o'r ffyrdd y mae athletwyr elît yn defnyddio golwg perifferol.

Mae Canolfan Diwydiant Bwyd **ZERO2FIVE** Met Caerdydd yn ganolfan arloesi o safon byd sy'n dangos rhagoriaeth ar lefel ryngwladol. Mae’r ffaith bod y brifysgol wedi cyfrannu tair astudiaeth achos effaith i'r ddau ymarfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diwethaf yn brawf o hyn. Mae'r Ganolfan yn darparu cymorth technegol, gweithredol a masnachol i fusnesau bwyd er mwyn eu galluogi i gystadlu'n fwy effeithiol. Mae ZERO2FIVE yn cyflogi technolegwyr bwyd a diod profiadol, arbenigwyr busnes ac uwch-ddarlithwyr ac athrawon prifysgol.

Ar y cyd, mae'r tîm hwn yn arbenigo ym mhob agwedd ar brosesu a gweithgynhyrchu bwyd a diod ynghyd â materion gweithredol a thechnegol ac mae'n gallu manteisio ar arbenigedd o fewn y Brifysgol sy'n cynnwys arbenigwyr sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol ym maes gwyddoniaeth bwyd, maetheg, deieteg, deddfwriaeth bwyd, iechyd yr amgylchedd, safonau masnach, datblygu cynnyrch newydd a gwyddorau biofeddygol. Mae enghreifftiau diweddar o ragoriaeth o ran arloesedd y Ganolfan yn cynnwys Rhaglenni Trosglwyddo Gwybodaeth KITE a HELIX, a ariannwyd gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru, ac sydd wedi cael effaith aruthrol ar arloesedd ym musnesau bwyd a diod Cymru dros gyfnod o flynyddoedd lawer.

Mae'r rhaglenni wedi helpu i gadw a chreu swyddi sgil uchel yn rhai o ranbarthau llai llewyrchus Cymru. Drwy bartneriaethau trosglwyddo gwybodaeth sy'n ymwneud â diwydiant, mae'r Ganolfan yn dod ag ymchwil o'r radd flaenaf i'r amlwg ym maes gweithgynhyrchu a chynhyrchu bwyd, gan sicrhau effaith economaidd uniongyrchol sydd werth dros £211 miliwn ers 2008, ac yn helpu i greu a sicrhau dros 3,300 o swyddi yn y sector.

Mae **Canolfan Ryngwladol Dylunio ac Ymchwil Met Caerdydd** (PDR) wedi arwain ar nifer o brosiectau trosglwyddo gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ecosystem ddylunio ar gyfer arloesi. Mae PDR yn ganolfan ymchwil ardderchog ar lefel ryngwladol, gydag enw da ledled y byd. Ceir tystiolaeth o hyn yn y ddau ymarfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diwethaf, lle bu ymchwil y ganolfan yn sail i 4 astudiaeth achos effaith. Mae ymchwil y ganolfan wedi cynnwys nifer o brosiectau ar raddfa fawr wedi'u hariannu gan RCUK a'r UE, sydd wedi cyfrannu at saith offeryn polisi ar draws chwe gwlad. Mae'r rhain wedi dylanwadu ar werth €358m o ddarpariaeth cronfeydd strwythurol a buddsoddiad uniongyrchol o €14m gan lywodraethau i fwy na 2,600 o fusnesau bach a chanolig ar draws Ewrop.

Cafodd iF Design ei sefydlu yn 1953 o dan yr enw Die Gute Industrieform e.V. Ers hynny, mae wedi dod yn symbol byd-eang o ragoriaeth mewn dylunio - yn enwedig wrth gynnal y wobr ddylunio flynyddol, iF DESIGN AWARD, un o wobrau dylunio mwyaf mawreddog y byd. Yn 2021, roedd PDR ymhlith 10,000 o geisiadau o 55 o wledydd i gael asesiad o’u gwaith. Caiff y ceisiadau eu beirniadu’n ddienw, gan griw dethol iawn o 98 o ddylunwyr academaidd a phroffesiynol blaenllaw o 22 o wledydd. Caiff pob cais ei feirniadu’n annibynnol gan sawl beirniad a hynny yn erbyn meini prawf llym iawn. Mae PDR bellach ar y brig yn safle #1 ym Mynegai Canllaw Dylunio Rhyngwladol iF - sef rhestr o dimau dylunio gorau'r DU, ac mae hefyd yn safle #13 yn y byd ar gyfer stiwdios dylunio a phensaernïaeth.

Mae **Fovo Technology Ltd (FovoTEc)** yn gwmni deillio sy'n seiliedig ar ymchwil grŵp ymchwil Fovograffi'r Ysgol Gelf a Dylunio. Wedi'i sefydlu ym mis Mehefin 2017 mae'r cwmni'n ymwneud â masnacheiddio meddalwedd delweddu trafferthus iawn. Mae adroddiad Global Market Insights yn 2019 yn amcangyfrif y bydd y farchnad fyd-eang ar gyfer meddalwedd rendro 3D yn ehangu o $1.5 biliwn yn 2018 i fwy na $6 biliwn erbyn 2025. Mae cyhoeddi meddalwedd 'FovoRender' FovoTEc yn galluogi i bortffolio technoleg ac IP arloesol y cwmni gael ei ddefnyddo ar draws amrywiaeth o gymwysiadau a marchnadoedd ehangach yn y dyfodol - o hapchwarae i feddygaeth, sinematograffi CGI, llwyfannau siopa ar-lein, fideo-gynadledda neu hyd yn oed deithiau 3D - gyda'r potensial i newid y ffordd yr ydym yn gwylio sgriniau am byth. Maent wedi sicrhau wyth patent rhyngwladol gyda 14 dan ystyriaeth ac wedi cynhyrchu dros 50 o allbynnau REF. Ar hyn o bryd mae'r cwmni werth oddeutu £10m a rhagwelir y bydd hyn yn codi i £40m-£100m erbyn 2026.



Mae **HUG™ gan Laugh Ltd** yn un o gwmniau deillio Met Caerdydd a sefydlwyd (Hydref 2020) i fasnacheiddio dyfais gysuro aml-synhwyraidd arloesol, a grëwyd gan ymchwilwyr yn y brifysgol i helpu pobl sy'n byw gyda dementia datblygedig. Mae HUG™ bellach ar gael ar gaell ar y GIG ac yn cael ei gynhyrchu ar raddfa lawn diolch i bartneriaeth newydd gyda Rhaglen Sbarduno'r Gymdeithas Alzheimer. Cyflwynwyd y gwaith i'r Uned Asesu Celf a Dylunio: Hanes, Ymarfer a Theori o'n cyflwyniad REF 2021 a ddaeth yn gydradd 2il yn y DU am effaith.

**Roedd yr hyn a gyflwynwyd i REF 2021 yn gynnydd mawr i'r Brifysgol o ran maint, ansawdd ac effaith o gymharu â REF 2014. Roedd yn cynnwys ceisiadau ar gyfer pum Uned Asesu:**

- UoA 03: Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Deintyddiaeth, Nyrsio a Fferylliaeth
- UoA 17: Busnes a Rheoli
- UoA 23: Addysg
- UoA 24: Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, Hamdden a Thwristiaeth
- UoA 32: Celf a Dylunio

Cyflwynodd Met Caerdydd fwy o waith nag erioed i REF2021 ac roedd yr hyn a gyflwynwyd yn fwy cynhwysol nag erioed hefyd. Cyflwynodd pedair gwaith cymaint o staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) (30% o'r holl staff academaidd) waith o gymharu â REF2014. Menywod oedd 45% o'r aelodau staff hynny ac aelodau staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol oedd 13.4% ohonynt. Cafodd 70% o'r gwaith a gyflwynwyd ei raddio naill ai'n Ardderchog yn Rhyngwladol neu'n Arwain y Byd. Roedd pob uned asesu (UoA) yn cynnwys ymchwil a gafodd ei ddynodi'n ymchwil o'r radd flaenaf ar lefel ryngwladol. Barnwyd hefyd fod dros 79% o'n heffaith a 70% o'n hamgylchedd naill ai'n Ardderchog yn Rhyngwladol neu'n Arwain y Byd. Ein GPA cyffredinol oedd 2.83, sy'n golygu bod Met Caerdydd yn 5ed yng Nghymru (sef y safle uchaf i Brifysgol a sefydlwyd ar ôl 1992) ac yn safle 81 yn y DU. Roedd yn 6ed yng Nghymru ac yn safle 99 ledled y DU am bŵer ymchwil. UoA 24: Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, Hamdden a Thwristiaeth ac UoA32: Celf a Dylunio oedd y ddau gyflwyniad cryfaf gydag ymchwil ardderchog yn rhyngwladol neu sy'n arwain y byd yn gyfrifol am 88% ac 84% o'r ceisiadau yn y drefn honno.

Mae maint ac ansawdd yr hyn a gyflwynwyd i REF2021 wedi arwain at gynnydd yng nghyllid Ymchwil cysylltiedig ag ansawdd (QR) o dros 80% o'i gymharu â'r REF diwethaf. Bydd hyn yn darparu seilwaith cadarn ar gyfer cyflwyno i REF 2028. Mae strategaeth ymchwil newydd yn un o brif alluogwyr Strategaeth 2030. Bydd staff yn dwysáu ymgysylltiad ag ymchwil ac arloesedd, incwm, allbynnau ac effaith ar draws y portffolio academaidd, gan gynyddu nifer a chanran y staff sydd â chyfrifoldeb sylweddol am ymchwil. Bydd dull strategol yn cael ei fabwysiadu i drosoli'r màs critigol hwn a'r Academïau Byd-eang er mwyn datblygu partneriaethau rhyngwladol gwerth uchel a diwylliant data agored. Bydd ymchwilwyr yn gweithio'n rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i gefnogi mentrau gan y llywodraeth a chyflawni'r nodau sydd eu hangen i sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol ac adferiad economaidd ar ôl y pandemig mewn economi decach a gwyrddach sy'n darparu datblygiad cynaliadwy.

Mae ein hamgylchedd ymchwil o fudd i'n hymchwilwyr ôl-raddedig sy'n cael cefnogaeth bellach gan yr Academi Ddoethurol, 'siop-un-stop' ar gyfer yr holl adnoddau a dulliau cefnogi sy'n gysylltiedig â'r daith ddoethurol. Mae hyn a mentrau eraill wedi golygu ein bod wedi cyrraedd yr 2il safle ymhlith pob SAU a oedd yn rhan o Arolwg Profiad Ôl-raddedig y DU 2022 (PRES). Roedd y gyfradd boddhad cyffredinol yn 90% (10% yn uwch na chyfartaledd y sector). Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol i Met Caerdydd sicrhau un o'r tri safle ar y brig yn PRES.

# Academïau Byd-Eang a Chanolfannau Rhagoriaeth

Mae Academïau Byd-eang a chanolfannau rhagoriaeth Prifysgol Metropolitan Caerdydd i gyd yn rhannu ffocws ar ddylunio a pherfformiad i wneud y gorau o botensial dynol a thwf economaidd.

Mae'r Brifysgol wedi tyfu nid yn unig o fewn Ysgolion unigol ond ar draws Ysgolion ac mae datblygiad yr Academïau Byd-eang yn crynhoi'r ymdeimlad hwn o gydweithio. Cynlluniwyd yr Academïau Byd-eang i ddatblygu ymchwil, arloesi ac addysg ôl-raddedig ryngddisgyblaethol, rhyngwladol ac effeithiol fel catalyddion ar gyfer twf economaidd a chymdeithasol, yma yn y DU a ledled y byd.

Mae’r tair Academi Fyd-eang i gyd yn mynd i’r afael â heriau byd-eang a nodir gan Nodau Datblygu Cynaliadwy’r Cenhedloedd Unedig a blaenoriaethau cenedlaethol a amlygwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae ystod o raglenni rhyngddisgyblaethol ôl-raddedig a addysgir sy'n cyd-fynd â chryfderau ymchwil ac wedi'u cynllunio i sicrhau ffyniant economaidd, cyfiawnder cymdeithasol a chynaliadwyedd amgylcheddol i Gymru a'r byd ehangach hefyd yn cael eu datblygu gan yr Academïau Byd-eang.

Mae'r rhaglenni hyn a addysgir yn ategu’r portffolio israddedig trwy gynnig dull sy'n canolbwyntio ar atebion sy'n adeiladu ar yr addysg o ansawdd uchel sy'n rhoi pwyslais ar sgiliau moesegol, digidol, byd-eang ac entrepreneuraidd; EDGE Met Caerdydd. Mae'r dull hwn wedi helpu i sicrhau gwelliannau sylweddol mewn deilliannau graddedigion a chyflogaeth drwy'r model sy'n canolbwyntio ar ymarfer o raddau a gydnabyddir yn broffesiynol sydd wedi'u cynllunio i sicrhau ffyniant economaidd, cyfiawnder cymdeithasol a chynaliadwyedd amgylcheddol i Gymru a'r byd ehangach.



Mae’r tair Academi Fyd-eang, a lansiwyd yn 2020, fel a ganlyn:

- Iechyd a Pherfformiad Dynol
- Gwyddor Bwyd, Diogelwch a Diogelu
- Dylunio sy'n Canolbwyntio ar Bobl

**Iechyd a Pherfformiad Dynol**
Cynlluniwyd yr Academi Fyd-eang ar gyfer Iechyd a Pherfformiad Dynol i alluogi unigolion, sefydliadau a chymdeithas i ganolbwyntio ar les fel ffordd o wireddu potensial. Mae’n dod ag arbenigedd mewn lles, iechyd y cyhoedd, gwyddorau biofeddygol, arweinyddiaeth a rheoli, chwaraeon, gweithgaredd corfforol, hyfforddi a thechnoleg ynghyd i gymryd golwg gyfannol ar berfformiad dynol. O wella iechyd y cyhoedd i gyflawni llwyddiant sy'n arwain y byd, mae'r Academi Fyd-eang hon yn canolbwyntio ar sut y gall unigolion wella eu hiechyd a'u perfformiad dynol er budd cymdeithasau ac economïau ehangach.


**Gwyddor Bwyd, Diogelwch a Diogelu**
Mae'r Academi Fyd-eang ar gyfer Gwyddor Bwyd, Diogelwch a Diogelu yn dod ag arbenigedd mewn cynhyrchu bwyd technegol, gweithredol a masnachol a'r gwyddorau biofeddygol ynghyd, ynghyd â maetheg, gwyddoniaeth ganfyddiadol a seicoleg. Mae’r Academi Fyd-eang yn adeiladu ar waith blaenllaw’r Ganolfan Diwydiant Bwyd sydd wedi galluogi twf cynaliadwy’r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru, gan gyfrannu’n sylweddol at gyflogaeth, allforion a chynaliadwyedd cymunedau gwledig ac anghysbell. Gan gyfrannu at effeithiau ehangach trwy ddatblygu cynnyrch newydd, iechyd defnyddwyr, mewnfuddsoddi a mentrau allforio, mae'r Academi Fyd-eang hon yn mynd i'r afael ag ystod eang o heriau byd-eang sy'n ymwneud â Nodau Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Mae Canolfan Diwydiant Bwyd ZERO2FIVE y Brifysgol yn meithrin arloesedd yn niwydiant bwyd a diod Cymru, gan helpu i allforio blas o Gymru ar draws y DU, y Gymanwlad a’r byd ehangach. Trwy drosglwyddo gwybodaeth sy'n ymwneud â diwydiant, mae'r Ganolfan yn dod ag ymchwil addysgol o'r radd flaenaf i flaen y gad ym maes gweithgynhyrchu a chynhyrchu bwyd. Mae rhaglenni a ddatblygwyd ac a ddarperir gan y Ganolfan, sef y Gyfnewidfa Arloesedd a Throsglwyddo Gwybodaeth (KITE) 2008-2015 a HELIX 2016-2023, wedi sicrhau effaith economaidd uniongyrchol o fwy na £211 miliwn ers 2008. Mae’r rhaglenni wedi datblygu bron i 2,000 o gynhyrchion newydd a chreu neu ddiogelu miloedd o swyddi.

**Dylunio sy'n Canolbwyntio ar Bobl**
Mae'r Academi Fyd-eang ar gyfer Dylunio sy'n Canolbwyntio ar Bobl yn canolbwyntio ar y ffyrdd y mae sefydliadau, cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau sy'n gosod yr unigolyn yn ganolog iddynt yn darparu atebion effeithiol i heriau bob dydd. Mae dylunio sy'n canolbwyntio ar bobl yn hybu creu atebion arloesol i heriau byd-eang ac mae'r Academi Fyd-eang hon yn adeiladu ar yr enw da a sefydlwyd gan y Ganolfan Ymchwil Dylunio a Datblygu Cynnyrch (PDR), gan gynnwys ei gwaith arloesol sydd wedi galluogi cynhyrchu dyfeisiau i'w defnyddio mewn gweithdrefnau llawfeddygaeth yn gyflym ac a gydnabuwyd gyda gwobr Gwobr Pen-blwydd y Frenhines yn 2015. Mae'r Academi Fyd-eang yn cysylltu ein harbenigedd mewn dylunio â thechnoleg, celf, pensaernïaeth, gwyddorau iechyd, gwyddoniaeth ganfyddiadol a pholisi cyhoeddus i fynd i'r afael ag ystod amrywiol o heriau byd-eang.

Mae Canolfan Ryngwladol Ymchwil Dylunio a Datblygu Cynnyrch (PDR) y Brifysgol yn un o brif ganolfannau dylunio'r DU ac mae'n gweithio gyda chwmnïau a sefydliadau ledled y byd i ddatblygu cynhyrchion, gwasanaethau ac arloesiadau newydd. Mae ei hymchwil mewn arloesi a dylunio yn helaeth ac ers 2014 mae PDR wedi ennill 38 o wobrau dylunio rhyngwladol, wedi'i rhestru'n #1 Asiantaeth Ddylunio'r DU ym Mynegai iF World Design Guide ac wedi ennill Gwobr Pen-blwydd y Frenhines (2015) am ymchwil arloesol ym maes dylunio llawfeddygol a phrosthetig.





Mae Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd yn gartref i FabLab, y Labordy Profiad Canfyddiadol, cwmnïau Deillio Fovotech a HUG™, a nifer o fentrau ymchwil ac arloesi mawr sy'n cydgysylltu o amgylch canfyddiad gweledol a dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan gysylltu disgyblaethau o gelfyddyd gain i gyfrifiadureg.

Meysydd Ymchwil Allweddol:

**Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd**
Pensaernïaeth a thechnoleg dylunio pensaernïol | Hanes celf, theori ac athroniaeth | Cydweithrediad celf-gwyddoniaeth | Serameg | Technoleg ddigidol greadigol | Hanes dylunio, theori ac athroniaeth | Arferion adeiladu ecolegol | Rhyngweithio wedi'i ymgorffori | Celfyddyd gain | Gwasanaethau adeiladu peirianneg | Ynni amgylcheddol | Dylunio synhwyraidd | Amgylchedd adeiledig cynaliadwy | Dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.

**Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd**
Addysg oedolion a pharhaus | Cyfryngau cyfoes | Ysgrifennu creadigol | Drama | Polisi addysg | Technoleg addysgol | Saesneg | Addysg Uwch | Iaith mewn addysg | Addysg Cerddoriaeth | Dysgu yn yr awyr agored | Addysg gynradd a blynyddoedd cynnar | Addysg wyddoniaeth.

**Ysgol Reoli Caerdydd**
Arweinyddiaeth greadigol a menter | Rheoli digwyddiadau | Meddwl darbodus | Rheolaeth sector cyhoeddus | Ynni adnewyddadwy a systemau | Cynaliadwyedd | Twristiaeth | Llif gwerth | Diwydiant gwin.

**Ysgol Gwyddorau Chwaraeon ac Iechyd Caerdydd**
Iechyd cardiofasgwlaidd a heneiddio | Bwyd, maeth ac iechyd | Iechyd a rheoli risg | Dadansoddi perfformiad | Ffisioleg | Cymdeithaseg ac athroniaeth chwaraeon | Seicoleg chwaraeon, ymarfer corff ac iechyd | Biomecaneg chwaraeon | Hyfforddiant ac addysgeg chwaraeon | Datblygu a rheoli chwaraeon | Anafiadau chwaraeon ac adsefydlu.

**Ysgol Dechnolegau Caerdydd**
Deallusrwydd Artiffisial (AI) a Roboteg | Peirianneg Gymhwysol a rheoli | Cyfrifiadura a gwybodeg | Gwyddor Data | Diwydiant 4.0 a pheirianneg meddalwedd | Dysgu peirianyddol | Amlgyfrwng a gemau, Realiti Estynedig (AR) a Realiti Rhithwir (VR) | Rhwydweithio: synwyryddion, diwifr, diogelwch | Delweddu a graffeg.



# Caerdydd

Mae prifddinas Cymru wedi newid tu hwnt i bob adnabyddiaeth dros y ddau ddegawd diwethaf gyda datblygiadau sylweddol iawn yn ei hamgylchedd a'i his-adeiledd gan gynorthwyo poblogaeth gynyddol, cynyddu datblygiadau busnes a buddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon a diwylliannol heb eu hail.

Cafodd y cyn ddociau eu hadfywio i fod yn lannau gwych Bae Caerdydd sydd, yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored, yn gartref i Ganolfan Mileniwm Cymru, lleoliad Cerddorfa BBC Cymru ac Opera Cenedlaethol Cymru ynghyd â'r Senedd gyferbyn â Phlas Roald Dahl. Heddiw, mae Caerdydd yn gyrchfan Ewropeaidd cyffrous ac yn brifddinas werth byw ynddi.

Caerdydd ydy'r brifddinas Ewropeaidd agosaf at Lundain, o fewn taith 100 munud ar y trên cyn bo hir. Rhagwelir mai Caerdydd ydy'r ddinas a fydd yn tyfu gyflyma yn y DU dros yr 20 mlynedd nesaf; mae'n ddinas ifanc a thalentog, yn barod am dwf economaidd lle na fu addysg uwch erioed cyn bywsiced.

Lleolir Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd hefyd, gydag Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan ac adeiladau dinesig gwych gydag aceri o barcdiroedd yn eu hamgylchynu, tiroedd sy' ffurfio 'ysgyfaint gwyrdd' y ddinas yn ymestyn o Fae Caerdydd i Gampws Llandaf y Brifysgol bedair milltir i'r gogledd. Er gwaethaf y twf cyflym diweddar, mae Caerdydd yn dal yn ddinas gyfeillgar. Mae'n ddinas egnïol llawn cymeriad ac awyrgylch, gydag ystod o gyfleusterau heb eu hail ar gyfer chwaraeon, bywyd nos, siopa ac i ymweld â hi, ynghyd â chalendr o ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon drwy gydol y flwyddyn. Efallai bod Barcelona yn ddinas enwog ger y môr ond Caerdydd sydd â datblygiadau mwyaf Ewrop ar hyd y glannau, sef Bae Caerdydd. Bu ardal yr harbwr yn bwysig i'r ddinas erioed ac yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, Caerdydd oedd porthladd allforio glo prysuraf y byd. Erbyn 1999, creodd argae Bae Caerdydd lyn dŵr ffres enfawr sydd nawr wedi'i amgylchynu gan farrau, bwytai a chaffis. Gerllaw ceir Plas Roald Dahl, wedi'i enwi ar ôl yr awdur enwog a aned yng Nghaerdydd, sy'n fangre syfrdanol ger Adeilad modern Senedd Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru lle cynhelir ein seremonïau graddio bob mis Gorffennaf. Mae ardal siâp padell Plas Roald Dahl, gyda mannau eistedd o'i gwmpas yn ffurfio amffitheatr yn gweithredu fel lleoliad i gynnal cyngherddau a gwyliau drwy'r haf. Gellir treulio amser hamddenol ym Mae Caerdydd y gellir ei gyrraedd mewn cwch o ganol y ddinas ac o dref Penarth gerllaw.

Mae Caerdydd yn ddi-os yn brifddinas chwaraeon. Mae Stadiwm y Principality i'w gweld yn amlwg o bob man a chwaraewyd gemau bythgofiadwy yno, ers 1999, o dan y to sy'n agor a chau. A'r ddinas yn gyrchfan chwedlonol ar gyfer cefnogwyr rygbi, mae Caerdydd yn orlawn o bobl o bob cwr o'r byd ar ddyddiau gemau rhyngwladol. Yn nhyb llawr o bobl does unman gwell na Chaerdydd i wylio gêm fawr nag yn y stadiwm wych hon, sydd, yn wahanol i'r arfer, wedi'i lleoli ynghanol y ddinas. Yn ogystal â'r rygbi, cynhelir Grand Prix Speedway Prydain yn Stadiwm y Principality hefyd ac mae wedi bod yn gartref i ornestau paffio rhyngwladol a chyngherddau gan fandiau enwog megis Coldplay ac Ed Sheeran.



*Pentref Llandaf*



*Castell Caerdydd*



*Stadiwm Principality a'r Afon Taf*



*Glanfa Penarth*




Mae gan Glwb Pêl droed Dinas Caerdydd hefyd stadiwm yn Lecwydd, gall cefnogwyr criced fwynhau prynhawn yng Ngerddi Sophia, cartref Clwb Criced Sir Forgannwg ac yn agos iawn at Gampws Llandaf, tra gall cefnogwyr hoci iâ weld tîm 'Cardiff Devils' yn chwarae yng nghanolfan sglefrio y ddinas.

Mae gan Met Caerdydd ei hun rai o'r cyfleusterau gorau ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, ond tu allan i'r brifysgol ceir digon o gyfleoedd ar gyfer chwaraeon amser hamdden. Mae Afon Taf yn llifo heibio i Gampws Llandaf ac yn mynd drwy ganol y ddinas ac mae ardal hardd Llyn Parc y Rhath, yn agos at gampws Cyncoed, werth ymweld â hi. Mae'r cyfleusterau yn Athrofa Chwaraeon Cymru yng Ngerddi Sophia, nid nepell o Gampws Llandaf, heb eu hail, cyfleusterau sy'n cynnwys cyrtiau badminton, tenis a phêl rwyd.

Mae'r wlad o gwmpas Caerdydd yn hardd ac yn cynnwys arfordir a chefn gwlad gyda Bro Gŵyr a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a llawer o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored a chwaraeon yn cynnwys beicio mynydd, hwylio, caiacio, hwyl-fyrddio, seiclo, cerdded a rhedeg mewn dinas gymharol wastad. Mae gan Caerdydd gysylltiadau cludiant rhagorol.

Mae wedi'i lleoli ar ymyl traffordd yr M4, ac mae'r orsaf drenau wedi'i lleoli'n gyfleus yn y ddinas ac yn daith trên ddwy awr o Lundain. Lleolir maes Awyr Caerdydd i'r gorllewin o'r Ddinas ac mae'n hawdd cyrchu nifer o gyrchfannau domestig a rhyngwladol yno. Mae Maes Awyr Bryste 50 milltir i'r dwyrain, sydd hefyd yn cynnig opsiynau helaeth ar gyfer teithiau awyr domestig a rhyngwladol.




Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd